

**2020 Rhif (Cy.)**

**2020 No. (W.)**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

**Gorchymyn Cefnffordd yr A470  
(Llanrwst, Bwrdeistref Sirol  
Conwy) (Gwahardd Cerbydau a  
Beicwyr Dros Dro) 2020**

**The A470 Trunk Road (Llanrwst,  
Conwy County Borough)  
(Temporary Prohibition of Vehicles  
& Cyclists) Order 2020**

*Gwnaed* 5 Mai 2020  
*Yn dod i rym* 11 Mai 2020

*Made* 5 May 2020  
*Coming into force* 11 May 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**Title, Commencement and Interpretation**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llanrwst, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 11 Mai 2020.

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (Llanrwst, Conwy County Borough) (Temporary Prohibition of Vehicles & Cyclists) Order 2020 and it comes into force on 11 May 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 11 Mai 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o'r gwaith eu symud ymaith;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the length of the A470 Maentwrog to East of Conwy trunk road that extends from its junction with Parry Road to its junction with the A548 Denbigh Street and the length of the trunk road that extends from its junction with the A548 Denbigh Street to its junction with the B5106 Pont Fawr;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw’r darn o gefnffordd yr A470 Maentwrog i Fan i’r Dwyrain o Gonwy sy’n ymestyn o’i chyffordd â Ffordd Pari hyd at ei chyffordd â’r A548 Heol Dinbych a’r darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd â’r A548 Heol Dinbych hyd at ei chyffordd â’r B5106 y Bont Fawr.

### **Gwaharddiad**

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o’r Gorchymyn hwn.

### **Cymhwyso**

5. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### **Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

5 Mai 2020



Nicci Hunter  
Arweinydd Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 00:01 hours on 11 May 2020 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

### **Prohibition**

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the trunk road specified in article 2 of this Order.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in article 2 of this Order.

### **Application**

5. The prohibitions in articles 3 and 4 apply only at such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### **Duration of this Order**

6. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the

5 May 2020



Nicci Hunter  
Business Team Leader  
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470  
(LLANRWST, BWRDEISTREF SIROL CONWY)  
(GWAHARDD CERBYDAU A BEICWYR DROS  
DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, yn Llanrwst, Conwy.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd a beiciwr rhag mynd ar:

- i. y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Ffordd Pari hyd at ei chyffordd â'r A548 Heol Dinbych; a
- ii. y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A548 Heol Dinbych hyd at ei chyffordd â'r B5106 y Bont Fawr.

Bydd y gwaith yn cael ei wneud mewn 2 gam. Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd pan fydd y darn o'r gefnffordd a nodir yn i. uchod ar gau yw mynd tua'r dwyrain ar Heol Dinbych, tua'r gogledd ar Ffordd Talybont a thua'r gorllewin ar Ffordd Pari; i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de, gan gynnwys mynd tua'r de ar Heol Watling cyn ailymuno â'r A470.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd pan fydd y darn o'r gefnffordd a nodir yn ii. uchod ar gau yw mynd tua'r gogledd ar Ffordd Tanyrysgol a Ffordd Talybont a thua'r gorllewin ar Ffordd Pari. Dylai cerbydau sy'n teithio tua'r de ddilyn y llwybr sydd i'w ddefnyddio pan fydd y darn o'r gefnffordd a nodir yn i. uchod ar gau.

Ni fydd modd i gerbydau dros 2.5 metr o led ac sy'n pwyso mwy na 7.5 tunnell (ac eithrio'r rheini sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus leol) ddefnyddio'r llwybrau dargyfeirio a ddisgrifir uchod. Dylai cerbydau o'r fath sy'n teithio tua'r gogledd ddilyn yr A470 tua'r de i Fetws-y-coed, yr A5 tua'r gogledd-orllewin i Gyffordd 11 yr A55 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), yr A55 tua'r dwyrain i Gyffordd 19 (Glan Conwy) a'r A470 tua'r de: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau nwyddau trwm sy'n teithio tua'r de.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 11 Mai 2020 ac yn weithredol hyd 23:50 o'r gloch ar 31 Mai 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

**THE A470 TRUNK ROAD (LLANRWST,  
CONWY COUNTY BOROUGH) (TEMPORARY  
PROHIBITION OF VEHICLES & CYCLISTS)  
ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road at Llanrwst, Conwy.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles and cyclists from proceeding on:

- i. the length of the A470 trunk road that extends from its junction with Parry Road to its junction with the A548 Denbigh Street; and
- ii. the length of the A470 trunk road that extends from its junction with the A548 Denbigh Street to its junction with the B5106 Pont Fawr.

The works will be undertaken in 2 phases. The alternative route for northbound traffic during the closure at i. above is via the eastbound Denbigh Street, northbound Talybont Road and westbound Parry Road; vice versa for southbound traffic, including the southbound Watling Street before rejoining the A470.

The alternative route for northbound traffic during the closure at ii. above is via the northbound School Bank Road and Talybont Road and westbound Parry Road. Southbound vehicles should follow the route given for the closure at i. above.

Vehicles over 2.5 metres wide and weighing in excess of 7.5 tonnes (other than those being used by the emergency services and for local public transport) will be unable to use the diversion routes described above. Such northbound vehicles should follow the southbound A470 to Betws-y-Coed, north-westbound A5 to the A55 Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), eastbound A55 to Junction 19 (Glan Conwy) and southbound A470: vice versa for southbound HGVs.

The temporary prohibitions are expected to come into force at 00:01 hours on 11 May 2020 and operate until 23:50 hours on 31 May 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf, rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**



**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**



**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government